# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Mai 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (cadeirydd)<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Nichola Salter, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Brian Stewart, Llywodraeth Cymru<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Ruth Johnston, CNC<br>Jennifer Slater, United Utilities<br>Betsan John, Llywodraeth Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | Dr Rosie Plummer, aelod o Fwrdd CNC<br>Suzy Lawn, CNC (Eitem 4)<br>Geraint Weber, CNC (Eitem 4)<br>Nicola Mills, CNC (Eitem 5)<br>Iwan Williams, CNC (Eitem 5)<br>Simon Neale, CNC (Eitem 5) |
| **Ymddiheuriadau:** | Marc Williams, CNC<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru<br>Kate Snow, United Utilities<br>Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Fraser McAuley, Y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>James Ruggeri, Hybu Cig Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datgan Buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (aelod o fwrdd CNC a chadeirydd is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nodwyd yr ymddiheuriadau ganddo. Croesawodd Rhys y gwesteion i'r cyfarfod, gan gynnwys Dr Rosie Plummer, aelod Bfwrdd CNC.

2. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion llunio'r cofnodion ac y câi'r ffeil ddigidol ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Datganodd Rosie ei bod yn aelod o Fwrdd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

   - NODER: Mae holl aelodau'r grŵp eisoes wedi cwblhau ffurflenni datgan buddiannau ond nodwyd y dylent hefyd wneud datganiad pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygu cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys y câi cofnodion y cyfarfod eu cyhoeddi ar wefan CNC ar ôl i'r grŵp eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol fel eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nododd ei bod yn bwysig felly bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.

5. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2024. Derbyniodd y grŵp gofnodion mis Mawrth fel cofnod cywir.

6. Rhannodd Bronwen y cofnod o'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd a rhoddwyd diweddariadau ar lafar yn eu cylch pan fu modd. Roedd y diweddariadau a ganlyn ymhlith y pwysicaf:

   - Cynllun Gweithredu Ionawr 08: Bydd Bronwen Martin, CNC yn cymryd camau dilynol gyda chydweithwyr ynghylch yr heriau y mae ffermydd o fewn parciau cenedlaethol yn eu hwynebu o ran cael caniatâd cynllunio ar gyfer gorchuddio storfeydd slyri.

     - Bu Bronwen mewn cysylltiad â'i chydweithwyr, ac maent wedi gofyn am ragor o wybodaeth gan Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant. Dywedodd Dennis nad oedd ganddo ragor o wybodaeth ond ei fod wedi siarad â'r person a roddodd y cyflwyniad gwreiddiol a'i bod wedi cytuno y byddai'n anodd mynd ar drywydd yr achos penodol hwn. Os nad oedd CNC na Thaliadau Gwledig Cymru yn ymwybodol ohono, yna mae'n awgrymu nad oes unrhyw reolau'n cael eu torri ond bod y ffermwr yn ceisio achub y blaen ar y problemau posibl gyda chapasiti storio. Gweithred wedi'i chwblhau.

   - Cynllun gweithredu mis Mawrth 01: Bydd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, yn ystyried a fydd / sut y bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu manylion ynghylch pa gynigion o ran mesurau amgen a gaiff eu derbyn, eu gwrthod neu eu hystyried ymhellach a pham.

     - Dywedodd Andrew fod Llywodraeth Cymru yn dal i ystyried hyn. Mae pethau eraill sy'n cyd-fynd â'r cyd-destun hwn, gan gynnwys penodiad diweddar

ysgrifennydd newydd y Cabinet, yr adolygiad pedair blynedd o'r Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a phenodi cadeirydd ar gyfer yr adolygiad.

- Cofiodd Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru y trafodaethau blaenorol a gofynnodd am gael gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl. Gofynnodd Gareth i Lywodraeth Cymru roi eglurder hefyd cyn gynted â phosibl ynghylch cyd-destun ehangach yr adolygiad, y mesurau amgen, yr asesiad effaith rheoleiddiol a phwyntiau amrywiol eraill a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Mae angen i'r wybodaeth gan Lywodraeth Cymru fod yn llawer ehangach na'r adolygiad yn unig.

- Cynllun gweithredu mis Mawrth 2: Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am fanylion y diffyg cydymffurfio y cyfeiriwyd ato gan Lesley Griffiths yn ystod yr uwchgynhadledd ddiweddar ar afonydd.

    - Dywedodd Andrew y byddai angen iddo adolygu cofnodion y cyfarfod diwethaf eto cyn rhoi ymateb.

7. Soniodd Rhys am gyfarfod diweddar gyda'r Athro Steve Ormerod a chynrychiolwyr eraill o wahanol grwpiau a oedd wedi'i drefnu er mwyn trafod diasinon. Mae Coleg Sir Gâr wedi bod yn arwain Rhaglen Dileu'r Clafr sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Rhoddir gwahoddiad i roi cyflwyniad mewn cyfarfod ar y cyd yn y dyfodol fel cyfle i ddysgu am y gwaith. Soniodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, am y Grŵp Diwydiant Dileu'r Clafr sydd wedi bod yn cefnogi gwaith Coleg Sir Gâr. Fel rhan o'r grŵp hwnnw, mae Dŵr Cymru wedi'u hariannu i wneud astudiaeth dadansoddi'r bylchau i'r sefyllfa bresennol o ran gwaredu dip defaid sy'n wastraff ac edrych ar alluedd o fewn y gadwyn gyflenwi – yn sicr os yw CNC am wthio ymhellach am ffrydiau gwaredu gwastraff – ac yna bydd angen inni ddeall a oes capasiti yn y gadwyn gyflenwi bresennol, hyd yn oed, i ddarparu ar gyfer hynny.

8. Fe wnaeth Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru atgoffa'r grŵp ei bod wedi gofyn am fanylion cyswllt 'Cynghorydd Iechyd CNC'. Dywedodd Rhys fod teitlau swyddi efallai ychydig yn gamarweiniol. Mae'r 'cynghorydd iechyd' sy'n gweithio i CNC yn rhywun sy'n ceisio annog y cyhoedd i fynd allan i'r awyr agored i wella'u hiechyd a'u llesiant eu hunain. Awgrymodd Rachel fod angendeall sut mae gan weithgareddau CNC y potensial i gyfrannu'n gadarnhaol neu'n negyddol at lesiant y rhai yr ydych yn eu rheoleiddio a sicrhau bod hynny'n rhan o'r swydd. Os oes gennych chi 'gynghorydd iechyd', mae'n sicr y byddai hynny'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer y rôl honno. Pwysleisiodd Iwan Williams, CNC fod CNC yn cymryd iechyd a llesiant o ddifrif. Mae ein holl swyddogion eisoes wedi cael sesiynau ymwybyddiaeth ac yn ymwybodol o effaith ein hymweliadau ar ffermwyr. Bydd rhaglen hyfforddi ffurfiol yn cychwyn yn ystod y misoedd nesaf – a gaiff ei darparu gan Sefydliad DPJ – y bydd ein holl swyddogion yn ei mynychu unwaith y bydd ar waith. Dywedodd Iwan y byddai'n hapus i gael trafodaeth gyda Rachel.

## Eitem 3. Adolygiad Maethynnau CNC

9. Ymunodd Suzy Lawn, CNC, â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Adolygiad Maethynnau CNC. Mae'r adolygiad yn adeiladu ar adolygiadau cyfnodol Parthau Perygl Nitradau blaenorol (cynhaliwyd yr un diwethaf yn 2016/2017). Cafodd y rheoliadau a'r adolygiad o Barthau Perygl Nitradau (NVZ) eu dirymu yn 2021 a daeth Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) 2021 i rym. Mae'r prosiect yn datblygu

dealltwriaeth, ar raddfa genedlaethol, o fewnbynnau rheoli tir o ran maethynnau a'r risg bosibl i ddyfroedd yng Nghymru, ac yn caniatáu i'r holl waith monitro gael ei ystyried yn ofodol ar draws y wlad gyfan ac i fannau problemus posibl gael eu nodi ar gyfer ymchwilio iddynt ymhellach. Fe'i comisiynwyd ym mis Medi 2021 a chafodd y prosiect ei gwblhau ym mis Mai 2023.

10. Rhoddodd Suzy drosolwg o'r fethodoleg, trafododd y gwaith o fodelu trwytholchi nitrogen a ffosffadau a rhoddodd drosolwg o'r canlyniadau gan ddefnyddio mapiau risg. Disgrifiodd Suzy yr wybodaeth fanwl a ddangosir yn y dangosfwrdd a rhoddodd grynodeb o rai o'r tueddiadau.

11. Mae allbynnau'r prosiect yn cynnwys adroddiadau technegol ar gyfer pob math o ddŵr, y dangosfwrdd system gwybodaeth ddaearyddol ar gyfer gwybodaeth fanwl, allbynnau dadansoddi ac adroddiadau cryno ar Barthau Perygl Nitradau. Bydd y datganiad allanol drwy'r blog a'r eitem newyddion ar wefan CNC, bydd y dangosfwrdd ar gael yn allanol, bydd yr holl haenau gofodol yn weladwy, a bydd rhywfaint o ddata ar gael i'w lawrlwytho, bydd adroddiadau technegol ar gael ar gais.

12. Bydd yr adolygiad maethynnau yn cael ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- Yn fewnol, i dargedu ymchwiliadau ac ymweliadau rheoleiddio
- Cefnogi asesiad risg y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
- Nodi bylchau yn y dystiolaeth
- Cyfrannu at brosiectau dalgylch megis prosiect arddangos Teifi
- Cyfrannu at drafodaethau ar fodelu'r camau nesaf a gwelliannau

13. Gofynnodd Rachel a allai Suzy rannu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a hefyd a allai anfon yr adolygiadau o dystiolaeth ati. Cytunodd Suzy i wneud hynny.

***Cynllun gweithredu mis Mai 01: Bydd Suzy Lawn, CNC, yn rhannu'r fethodoleg ar gyfer yr adolygiad maethynnau â'r grŵp hwn.***

14. Gofynnodd Rachel a fyddai'r gwaith hwn yn llywio adolygiad pedair blynedd Llywodraeth Cymru o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Dywedodd Andrew fod hyn yn cyflawni'r rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau o ran cael rhaglen fonitro. Fodd bynnag, nid dyma gyfanswm y dystiolaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei hystyried wrth edrych ar yr adolygiad – bydd ystod eang o dystiolaeth arall. Gofynnodd Rachel pryd y byddai'r pecyn tystiolaeth yn cael ei rannu, yn debyg i'r hyn a ddarparwyd yn 2016. Dywedodd Andrew mai hwn fyddai'r 'pecyn tystiolaeth' hwnnw yng nghyd-destun yr adolygiad a wnaed yn 2016. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ychwanegol a fydd yn cael ei hystyried (ee data eraill sydd ar gael, digwyddiadau llygredd tarddle penodol, y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, cyrff dŵr sy'n methu â chyrraedd safonau ac ati). Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y bydd yn ymgysylltu ar y sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir yn yr adolygiad, a bydd angen ei thrafod gyda'r cadeirydd a benodir. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'n rhy gynnar i achub y blaen ar y trafodaethau hynny.

15. Dywedodd Rachel fod potensial ar gyfer newid rheoleiddiol sydd â'r potensial i ychwanegu costau sylweddol at fusnesau fferm a gosod baich sylweddol arnynt. Ar ran

eu haelodau, mae NFU Cymru am weld y dystiolaeth yn cael ei chyflwyno mewn ffordd gynhwysfawr fel eu bod yn gallu gweithio drwyddi a deall y sail ar gyfer unrhyw benderfyniadau neu gynigion y mae Llywodraeth Cymru a CNC yn eu hawgrymu. Mae angen sicrhau lefel dda o dryloywder ynghylch y dystiolaeth y gwneir penderfyniadau arni, a byddai'n ddefnyddiol iawn gweld y dystiolaeth honno'n gynnar.

16. Awgrymodd Gareth ei bod yn bwysig ystyried sut mae cywirdeb y gwaith modelu wedi newid ers 2016, a sut y gallai hynny bortreadu na fu llwyddiant y rheoliadau agos cystal â'r canfyddiad a fyddai wedi bod o'u llwyddiant yn 2016. Mae'n hollbwysig deall sut yr ystyriwyd yr anghysondebau hynny rhwng y ddau adolygiad. Soniodd Gareth mai un o'r mesurau amgen a gyflwynwyd gan FUW oedd ehangu rheoliad 44 fel ei fod yn cwmpasu meini prawf llawer ehangach y dylai'r adolygiad o'r rheoliadau fod yn seiliedig arnynt. Yn hytrach na chanolbwyntio ar lygredd amaethyddiaeth yn unig, dylai o leiaf ystyried tystiolaeth ar effeithiau economaidd, effeithiau rheoleiddio ac ati. Gofynnodd Gareth am ddiweddariad ar hynny cyn gynted â phosibl. Yn y bôn, byddai hynny wedyn yn cael effaith uniongyrchol ar y dystiolaeth sydd ar gael y dylid ei hystyried yn yr adolygiad a fyddai'n llawer ehangach. Dywedodd Rhys y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp gael gwell dealltwriaeth o'r broses gyfan.

***Cynllun gweithredu mis Mai 2: Bydd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, yn rhoi mwy o eglurhad ynghylch proses yr adolygiad maethynnau, sut y caiff ei defnyddio yn yr adolygiad pedair blynedd, amserlenni, ac a fydd cyfle i is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gyfrannu at y gwaith o werthuso'r dystiolaeth a'r data.***

17. Gofynnodd Dennis tybed a fyddai adroddiad dros dro y grŵp yn 2018 yn cyfrannu at yr adolygiad hwn. Roedd gan Dennis ddiddordeb mewn deall sut mae ansawdd dŵr wedi gwella – yn benodol a yw wedi gwella yn y Parthau Perygl Nitradau presennol. Dywedodd Suzy fod llawer o hyn yn cael ei wneud ar raddfa genedlaethol. Mae gennym ddadansoddiad o dueddiadau ar gyfer pob un o'r pwyntiau monitro o fewn y Parthau Perygl Nitradau blaenorol, ond mae rhai gwahanol yn dangos tueddiadau gwahanol ac felly lefel o amrywioldeb. Disgrifiodd Suzy rai o'r pwyntiau monitro.

18. Nododd Rachel y drafodaeth ynghylch pwyntiau monitro a dywedodd ei bod yn wirioneddol bryderus bod diwydiant cyfan o bosibl yn cael ei reoleiddio a bod y bygythiad i hyfywedd busnesau fferm yn cael ei wneud ar sail gwaith modelu. Gwyddom nad oes modelau perffaith, ond gwyddom hefyd y deuir i gasgliadau o fodelau nad ydynt yn dystiolaeth gan fod yna wastad lefelau o ansicrwydd nad ydynt yn aml yn cael eu cyhoeddi. Mae'n destun pryder mawr bod eraill yn cymryd canfyddiadau'r modelau hynny ac yn credu eu bod yn dystiolaeth gadarn. Mae angen i CNC, fel sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fod yn llawer mwy eglur o ran pennu pryd mae modelau'n cael eu defnyddio a nodi'r lefelau o ansicrwydd, a cheisio arwain llunwyr polisi i ddeall pryd y mae sail ddigon cadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi, gan gynnwys rheoleiddio. Gofynnodd Rachel a oedd y gwaith a wnaed gan ARUP wedi bod yn destun unrhyw broses sicrhau ansawdd. Dywedodd Suzy ei fod wedi bod yn destun proses sicrhau ansawdd fewnol. Ar gyfer y gwaith modelu, mae gennym y dadansoddiad sensitifrwydd lle rydym wedi tynnu sylw at yr agweddau ar y model sy'n cael yr effaith fwyaf ynddo.

19. Gofynnodd Rhys am fwy o waith monitro sydd wedi'i dargedu ac asesu cywirdeb drwy gymharu â gwybodaeth a gasglwyd ar lawr gwlad. Dywedodd Suzy y byddai asesu cywirdeb yn y modd hwn yn gam nesaf pwysig. Mae ARUP wedi defnyddio'r model hwn yn Lloegr gyda'r cwmnïau dŵr a'u cam nesaf yw edrych ar feysydd sydd wedi'u

nodi. Rydym yn defnyddio hwn fel rhan o'n trafodaeth yn fewnol ynghylch ble i flaenoriaethu gwaith monitro. Rydym hefyd wedi siarad â Llywodraeth Cymru am fylchau yn ein rhwydwaith monitro. Rydym am iddo gael ei ddefnyddio pan fydd gennym adnoddau ar gyfer prosiectau dalgylch ar gyfer pethau fel gosod sondiau neu wneud ymchwiliad rhaglen a defnyddio'r mapiau risg. Nid yw'n mynd i gael ei ddefnyddio ar gyfer dynodiadau statudol yn yr un modd ag yr oedd ardaloedd y Parthau Perygl Nitradau (NVZ) blaenorol.

20. Dywedodd Jon Goldsworthy, CNC, y gallai hyn ddylanwadu ar reoleiddio, ond mae hefyd yn ymwneud â'r cyfle o ran ble rydym yn rhoi adnoddau, a phryd yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth i dargedu ymyriadau a chamau gweithredu o fewn dalgylchoedd. Rydym yn sicr yn edrych ar hyn o safbwynt Prosiect Dalgylch Arddangos y Teifi. Y gobaith yw, gyda chyllid ychwanegol, y bydd cyfle hefyd i wneud mwy o waith monitro yn y dalgylch arddangos hwn a allai arwain at asesu cywirdeb yr wybodaeth fodelu a ddarparwyd drwy ei chymharu â gwybodaeth a gasglwyd ar lawr gwlad.

21. Nododd Gareth fod hyn yn gysylltiedig â'r trafodaethau grŵp a gafwyd yn ôl yn 2018 pan fuom yn sôn am ddull wedi'i dargedu ac ardaloedd y mae angen rhoi sylw ychwanegol iddynt. Gallai fod cyfleoedd penodol, ond mae angen inni hefyd osgoi dwysáu'r rheoliadau ar draws Cymru gyfan. Dyma'r pryder sylfaenol.

***Cynllun gweithredu mis Mai 3: Bydd Bronwen Martin, CNC, yn dosbarthu copi o'r gyflwyniad ar yr adolygiad maethynnau a manylion cyswllt Suzy Lawn, CNC.***

## Eitem 5. Diweddariad gan Dîm Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol CNC

22. Bydd Nicola Mills, CNC, yn darparu diweddariad ar gynnydd y Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol. Rhoddodd Nicola gefndir cryno ynglŷn â Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, a disgrifiodd rôl Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol CNC. CNC sy'n gyfrifol am yr arolygiadau cydymffurfedd. Dechreuodd prosesau recriwtio CNC yr haf diwethaf ac maent bellach wedi'u cwblhau. Dyrennir ffermydd i swyddogion CNC ar sail y rhaglen arolygiadau a flaenoriaethir o weithgareddau amaethyddol risg uchel a nodwyd y cytunwyd arnynt â Llywodraeth Cymru.

23. Esboniodd Nicola broses yr arolygiadau cydymffurfedd o'r dechrau i'r diwedd, disgrifiodd yr ymweliadau a gynhaliwyd hyd yma, rhoddodd grynodeb o rywfaint o'r data a thrafododd rai o'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg.

***Cynllun gweithredu mis Mai 4: Bydd Bronwen Martin, CNC yn dosbarthu copi o gyflwyniad y Tîm Rheoli Llygredd Amaethyddol a manylion cyswllt Nicola Mills, CNC.***

24. Trafododd Gareth pa mor effeithiol yw'r Rheoliadau ar gyfer ffermwyr a chofiodd rywfaint o'r adborth gan ffermwyr a grynhowyd yn y cyflwyniad, yn adborth cadarnhaol a negyddol. Dywedodd Gareth fod rhai ffermwyr wedi bod yn ei chael hi'n anodd iawn ac wedi bod yn poeni am arolygiadau ac yn dal i wynebu cosbau hyd yn oed os yw CNC wedi'u helpu i gydymffurfio ar ôl yr ymweliad. Mae system awtomatig gyda Taliadau Gwledig Cymru sy'n dangos bod diffyg sylfaenol yn y broses bresennol. Mae angen cael sgwrs ar frys (ar wahân i'r grŵp hwn) gyda CNC, Llywodraeth Cymru a Taliadau Gwledig Cymru er mwyn ceisio deall sut y gellir gwella'r broses honno.

Gofynnodd Gareth a oes gan CNC unrhyw wybodaeth ynghylch sawl un o’r ffermydd hynny nad oedd yn cydymffurfio sydd wedi cael cosbau o ganlyniad i hynny. Nid oedd gan Nicola yr wybodaeth honno – mae’n sefyllfa anodd iawn – ond ar hyn o bryd, mae’n rhywbeth y mae’n rhaid i CNC ei wneud. Fodd bynnag, byddai CNC yn croesawu cael trafodaethau ynglŷn â hyn â Llywodraeth Cymru a Taliadau Gwledig Cymru. Dywedodd Andrew ei bod yn bwysig bod yn ymwybodol bod camau gorfodi drwy’r Rheoliadau yn mynd i fod yn wahanol i’r camau gorfodi drwy drawsgydymffurfedd.

25. Gofynnodd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin, mewn perthynas â’r ffermydd sydd wedi ymrwymo i’r Dull Rheoli Maethynnau Uwch, sawl fferm sydd bellach ar y rhestr risg uchel o ganlyniad i ymrwymo i’r dull hwnnw. Dywedodd Nicola fod CNC wedi cael naw hysbysiad ledled Cymru a bod y mwyafrif o’r rheini eisoes ar ein rhestr i ymweld â nhw. Gofynnodd Creighton o ba ardaloedd y mae'r hysbysiadau hynny'n dod. Dywedodd Nicola fod un ar gyfer Sir Benfro a bod yr wyth arall yng Ngogledd Cymru.

26. Roedd Creighton yn cofio bod un o'r categorïau eraill yn cynnwys ffermydd sydd wedi bod yn destun ymchwiliadau i achosion o lygredd yn ddiweddar ac a oedd yn peri risg barhaus i'r amgylchedd. Gofynnodd Creighton sawl un o'r rheini sydd, ac a oes unrhyw amrywiad rhanbarthol. Eglurodd Nicola y strwythur a'r broses bresennol rhwng y timau rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol a'r timau amgylchedd. Mae timau'r amgylchedd yn cynnal eu hymchwiliadau a’u gwiriadau ac yn cymryd pa bynnag gamau gorfodi sy’ndangenrheidiol er mwyn atal y llygredd hwnnw. Yna mae'r fferm benodol honno'n cael ei throsglwyddo i'r tîm rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol i drefnu lle iddi yn yr amserlen ar gyfer cynnal ymweliad cydymffurfedd â hi. Dywedodd Nicola fod tua 100 o ffermydd wedi’u trosglwyddo i’r tîm rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol ond, yn eithaf aml, fod y ffermydd hynny eisoes ar y rhestr risg uchel felly nid yw hynny o reidrwydd wedi arwain at waith ychwanegol.

27. Dywedodd Creighton ei fod yn annog pobl i adrodd am ddigwyddiadau yn uniongyrchol i CNC, ond bod llawer o bobl yn Sir Benfro a Gorllewin Sir Gaerfyrddin wedi cysylltu ag ef ynglŷn â digwyddiadau. Gofynnodd Creighton a oedd yr ardaloedd hyn yn ardaloedd sydd â risg uchel penodol. Dywedodd Nicola fod cymaint o ffermydd yn y rhanbarthau hynny a'r de-orllewin yw eu prif ardal ar gyfer ymweliadau. Fodd bynnag, dywedodd Nicola nad oedd wedi sylwi ar unrhyw duedd benodol arall.

28. Dywedodd Rachel ei bod yn ddiddorol iawn bod CNC wedi dewis cynnwys sleid ar warant fferm (roedd 89% o ffermydd nad oeddent yn cydymffurfio ac 88% o ffermydd a oedd yn cydymffurfio yn aelodau o gynllun gwarant fferm). Gofynnodd Rachel a allai Nicola ddarparu sleidiau tebyg ar ffermydd a arolygwyd a oedd o dan gyfyngiad TB buchol, a hefyd y ffermydd hynny sydd â thenantiaid. Cofiodd Rachel am y sleid ‘materion cyffredin’, a dywedodd ei fod yn ddefnyddiol o ran cael dealltwriaeth. Gofynnodd Rachel a oes modd rhoi canrannau neu gyfrannau o dan bob pennawd fel bod NFU Cymru yn gwybod ble i dargedu ymdrechion o ran cefnogi eu haelodau i gyflawni cydymffurfedd. Dywedodd Rachel fod tystiolaeth dda ei bod yn wirioneddol anodd i gydymffurfio â’r dull Parthau Perygl Nitradau (NVZ), a bod y lefelauo ddiffyg cydymffurfio, neu gyfraniad o fethiannau, yn adlewyrchu diffygion systematig yn y Rheoliadau i raddau helaeth. Roedd Rachel yn gobeithio y câi hyn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd. Dywedodd Nicola fod gennym system Power BI sy'n casglu llawer o wybodaeth ac, wrth symud ymlaen, y dylem fod yn gallu cyhoeddi dadansoddiad gwell o'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yr ydym wedi'u gweld. Mae’n

bwysig nodi, ar hyn o bryd, mai dim ond ar gyfer y tri mis cyntaf (ee mis Ionawr i fis Fawrth 2024) y mae’r ffigurau a ddangosir heddiw oherwydd bod y swyddogion yn eu cyfnod hyfforddi hyd at y Nadolig. Dywedodd Nicola eu bod yn casglu gwybodaeth yn ystod yr ymweliadau ynghylch cyfyngiadau TB buchol a thir â thenantiaid, ond nid oedd yn siŵr a oedd yn cael ei chyflwyno o fewn swyddogaeth adrodd Power BI. Dywedodd Rachel fod y gallu i gydymffurfio â’r Rheoliadau yn dibynnu’n fawr ar a ydych yn ffermwr tenant (ni all ffermwyr sy’n denantiaid ddenu cyllid, ni fydd y landlord yn gwneud y buddsoddiad ac ati) neu os ydych o dan gyfyngiad TB buchol (rydych chi mewn sefyllfa anffafriol o gael eich gorfodi i dorri naill un set o Reoliadau neu’r set arall). Mae’r wybodaeth hon yn werthfawr o ran cael syniad o achosion sylfaenol diffyg cydymffurfio, a hebddi nid yw'r ffigurau'n dweud llawer wrthym mewn gwirionedd. Cadarnhaodd Simon Neale, CNC, fod gan CNC y ffigurau hynny ac y gall lunio sleidiau. Rydym hefyd yn y broses o lunio adroddiad cryno ar ein canfyddiadau hyd at 31 Mawrth. Gofynnodd Rhys a fyddai modd dosbarthu copi o'r adroddiad cryno hwnnw i'r grŵp hwn unwaith y bydd wedi'i gwblhau. Cytunodd Simon y gellid dosbarthu copi o'r adroddiad cryno i'r grŵp, ond mae'r broses hon yn debygol o gymryd peth amser.

***Cynllun gweithredu mis Mai 5: Bydd Nicola Mills (a chydweithwyr) yn darparu gwybodaeth am ffermydd yr ymwelwyd â nhw sydd o dan gyfyngiad TB buchol neu sydd â thenantiaid.***

***Cynllun gweithredu mis Mai 6: Bydd Nicola Mills (a chydweithwyr) yn dosbarthu copi o adroddiad cryno o ymweliadau rheoliadau rheoli llygredd amaethyddol pan fydd ar gael.***

29. Roedd Einir Williams, Cyswllt Ffermio, yn cofio'r problemau ynghylch argaeledd ymgynghorwyr. Dywedodd Einir ei bod wedi derbyn adborth yng Ngogledd Cymru fod swyddogion CNC yn tueddu i grybwyll un ymgynghorydd penodol – ond bod eraill ar gael. Yr ymgynghorydd y sonnir amdano i ffermwyr yw’r un sydd wedi darparu’r hyfforddiant i swyddogion CNC, ond mae llawer o bobl sy’n ymwneud â’r fframwaith Cyswllt Ffermio yn gallu darparu cymorth ynghylch seilwaith i ffermwyr. Mae hyn yn werth ei nodi i staff CNC. Dywedodd Einir fod gennym lawer o gefnogaeth o fewn y rhaglen a bod canran eithaf sylweddol o'r galwadau ffôn yr ydym yn eu cael yn wythnosol yn ymwneud â chefnogaeth i’r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael copi o'r sleidiau, yn benodol ar gyfer yr achosion mwyaf cyffredin o dorri amodau, oherwydd y gallwn wedyn dargedu ein cyfathrebiadau.

30. Roedd David Ball, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, yn cofio mai dim ond naw hysbysiad a gafodd CNC ar gyfer y Dull Rheoli Maethynnau Uwch ac eto nid oedd cydymffurfio â’r rheolau 170 cilogram yn un o’r materion a welwyd amlaf. Dywedodd Nicola y gall roi rhagor o wybodaeth a dadansoddiadau pellach ar gydymffurfedd mewn cyfarfod yn y dyfodol. Ni fu cynifer o hysbysiadau ar gyfer y Dull Rheoli Maethynnau Uwch ag yr oeddem wedi’u disgwyl.

31. Soniodd David fod caniatâd cynllunio wedi’i gynnwys yn y crynodeb o faterion y mae CNC wedi’u canfod. Gofynnodd David os canfyddir nad oes caniatâd cynllunio ar waith, neu pan ganfyddir hynny, a ydych yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gael caniatâd cynllunio fel rhan o’r broses y maent yn gorfod ei chyflawni i gydymffurfio ac, os yw ffermwr yn cael anhawster cael caniatâd cynllunio, beth fydd ei sefyllfa o ganlyniad i hynny?Dywedodd Nicola eu bod yn cynghori ffermwyr y dylent gael caniatâd cynllunio, ac y bydd angen iddynt fynd yn ôl at yr awdurdod lleol i geisio cael caniatâd cynllunio ôl-weithredol. Fodd bynnag, mae hyn yn anodd iawn – yn enwedig gyda storfeydd slyri,

er enghraifft – oherwydd bod y gofyniad yn cwmpasu profi'r cynnwys clai, ac ni ellir gwneud hynny'n hawdd unwaith y bydd eisoes wedi'i lenwi â slyri. Rydym hefyd yn hysbysu'r awdurdod lleol pan fyddwn yn dod o hyd i strwythurau anghyfreithlon. Rydym yn gweithio'n agos gyda ffermwyr a'r awdurdodau lleol. Mae caniatâd cynllunio o fewn rheoliadau ehangach, ond mae gan CNC gyfle i ymgynghori, a byddai'n gallu cynghori a fyddai'r strwythur arfaethedig yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

32. Trafododd Dennis y problemau i denantiaid ac awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol pe gallai CNC ddarparu ystadegau ar nifer y tenantiaid nad ydynt yn cydymffurfio y daethpwyd ar eu traws hyd yn hyn. Mae Cymdeithas y Ffermwyr Tenant eisoes wedi gweld, ac wedi bod yn gweithio ar achosion, pan na fydd landlord yn rhoi caniatâd i'r tenant, er enghraifft, i adeiladu storfa slyri newydd ar y sail ei fod yn cynyddu gwerth yr eiddo am resymau sy'n ymwneud â threth etifeddiant, neu achosion pan na fydd y tenant yn ei wneud ei hun oherwydd ei fod yn credu y bydd yn atebol. Er ei fod yn dibynnu ar ba fath o denantiaeth sydd ganddynt, os oes ganddynt denantiaeth o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol, mae modd troi at gymrodeddu er mwyn ceisio gorfodi'r landlord i wneud y peth iawn, ond os oes gennych denantiaeth busnes fferm nid oes gennych y pŵer hwnnw. Ychydig dros dair blynedd yw hyd cyfartalog tenantiaeth busnes fferm yng Nghymru, felly nid yw tenant yn mynd i wario arian ar storfa slyri. Mae CNC yn dilyn dull synhwyrol ac yn ceisio gweithio gyda ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio i gydymffurfio. Fodd bynnag, os bydd hyn yn mynd i Taliadau Gwledig Cymru ar gyfer asesu trawsgydymffurfedd, ni fyddant yn rhoi sicrwydd inni o hyd a fyddant yn dilyn yr un dull, ac mae'n awtomatig eich bod yn torri amodau trawsgydymffurfio a byddwch yn cael eich cosbi. Yn ogystal, os na allwch gydymffurfio, yna ni allwch ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd ychwaith.

33. Dywedodd Gareth y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth grant ar gyfer seilwaith storio slyri ar y fferm a gofynnodd beth fydd sefyllfa ffermwyr ar ôl 1 Awst os nad ydynt yn gallu cydymffurfio â'r gofynion storio oherwydd materion sydd y tu hwnt i'w rheolaeth (ee, materion tenantiaeth, ceisiadau cynllunio neu oedi gydag awdurdodau lleol ac ati). Dywedodd Nicola fod meini prawf ein polisi gorfodi yn llym iawn, ond ei fod hefyd yn dibynnu ar lefel y risg. Rydym yn gweithio gyda ffermwyr drwy roi amser synhwyrol iddynt wneud pethau, drwy ystyried amser ar gyfer trefnu cyllid, cynllunio a gwaith adeiladu mewn gwirionedd. Rydym hefyd yn ystyried yr oedi oherwydd y galw am adeiladu strwythurau newydd. Os yw ffermwyr yn rhagweithiol, gofynnwn am gadarnhad ysgrifenedig a thystiolaeth eu bod wedi cyflogi ymgynghorydd, adeiladwr neu gwmni adeiladu ac ati. Dywedodd Gareth ei fod yn mawr obeithio bod y tîm yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am yr adolygiad pedair blynedd yn ystyried y sylwadau hyn.

34. Gofynnodd Gareth am fwy o eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd CNC yn ymdrin â'r ffermwyr hynny sydd yn y sefyllfa honno ar ôl 1 Awst a sut mae Taliadau Gwledig Cymru yn mynd i'w trin o safbwynt trawsgydymffurfedd.

***Cynllun gweithredu mis Mai 7: Bydd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru yn egluro sut yr ymdrinnir â'r ffermwyr hynny nad ydynt yn gallu cydymffurfio ar ôl 1 Awst oherwydd rhesymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, a bydd yn egluro sut y mae Taliadau Gwledig Cymru yn mynd i'w trin o safbwynt trawsgydymffurfedd.***

35. Roedd Creighton yn cofio bod CNC wedi dod ar draws nifer o strwythurau nad oes caniatâd cynllunio ar eu cyfer, a gofynnodd i Nicola ddarparu canran o'r rhai sy'n

destun cais cynllunio a chanran ar gyfer sawl strwythurau nad ydynt yn destun unrhyw gais cynllunio o gwbl. Dywedodd Nicola y byddai'n ymchwilio i'r cais hwn.

***Cynllun gweithredu mis Mai 8: Bydd Nicola Mills yn ymchwilio i ffigurau ar gyfer strwythurau sydd â chaniatâd cynllunio a strwythurau sydd heb ganiatâd cynllunio ac yn rhoi adborth i'r grŵp.***

36. Cofiodd Creighton y sgwrs gynharach am y 100 o fferm sydd wedi cael eu hychwanegu at y rhestr oherwydd digwyddiadau llygredd diweddar, a gofynnodd am ddadansoddiad o leoliad y ffermydd hynny. Dywedodd Nicola y byddai'n ymchwilio i'r cais hwn.

***Cynllun gweithredu mis Mai 9: Bydd Nicola Mills yn darparu dadansoddiad o ble mae'r 100 fferm ychwanegol hynny sydd wedi'u cysylltu â'r digwyddiadau llygredd diweddar.***

***<u>Nodyn ôl-gyfarfod:</u>*** *Mae Nicola Mills wedi darparu'r wybodaeth ganlynol –*

*Lleoliad ffermydd a atgyfeiriwyd gan dimau amgylchedd:*

- *Ceredigion 8*
- *De Powys 3*
- *Sir Gaerfyrddin 22*
- *Sir Benfro 16*
- *Casnewydd / Caerffili 6*
- *Pen-y-bont ar Ogwr 1*
- *Sir Ddinbych 4*
- *Wrecsam 2*
- *Powys 2*
- *Conwy 2*
- *Ynys Môn 2*
- *Gwynedd 1*

*Cyfanswm 69*

37. Diolchodd Rhys i Nicola am y cyflwyniad a dywedodd y byddai'r grŵp yn croesawu diweddariadau cyfnodol wrth symud ymlaen.

## Eitem 4. Unrhyw faterion eraill

38. Gofynnodd Rachel a fyddai'n bosibl cynnwys eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer yr adolygiad pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol fel y gall Llywodraeth Cymru barhau i'n diweddaru yn barhaus. Cytunodd Andrew â'r awgrym hwn.

***Cynllun gweithredu mis Mai 10: Bydd Bronwen Martin, CNC yn ychwanegu'r adolygiad pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol at yr agenda fel eitem sefydlog wrth symud ymlaen.***

39. Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 17 Mehefin 2024.

40. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.